# Twyll Peryglus
# Gweithgareddau Dilynol i Athrawon

Mae'r gweithgareddau yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 4 o'r Fframwaith ABCh ar gyfer rhai 7 i 19 oed yng Nghymru.

Nod yr adran hon yw cynorthwyo disgyblion CA3 i ddeall beth yw camfanteisio rhywiol, lle i gael cymorth a sut y gallant gadw'u hunain yn ddiogel.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc wedi eu hamddiffyn rhag ecsploetio rhywiol. Mae pob plentyn a pherson ifanc o bosibl mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol. Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae mewn lleihau'r perygl hwn. Drwy archwilio nodweddion perthynas ddiogel ac iach gall swyddogion helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i adnabod risgiau posibl, aros yn ddiogel a cheisio cymorth os oes ei angen.

Dylai'r gweithgareddau camfanteisio rhywiol gael eu cyflwyno fel rhan o ABCh a rhaglen addysg rhyw a chydberthynas yr ysgol. Dylai fod yn gyson â pholisi addysg rhyw yr ysgol a'r fframwaith gwerthoedd cytunedig ar gyfer addysg rhyw a chydberthynas. Bydd angen i chi ystyried a yw'r wers yn briodol ar gyfer anghenion eich dysgwyr o ran yr iaith, delweddau, aeddfedrwydd a'r ddealltwriaeth sydd ei angen.

**Gwybodaeth i Athrawon**

Caiff camfanteisio rhywiol ei ddiffinio gan lywodraeth y DU:

> "Mae camfanteisio rhywiol ar blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn ymwneud â sefyllfaoedd, cyd-destunau a chydberthnasau o gamfanteisio lle mae pobl ifanc (neu drydydd person neu bersonau) yn derbyn 'rhywbeth' (e.e. bwyd, llety, alcohol, sigaréts, sylw, rhoddion, arian) fel canlyniad i berfformio gweithgareddau rhywiol a/neu eraill yn perfformio gweithgareddau rhywiol arnynt hwy.
>
> Gall camfanteisio rhywiol ddigwydd drwy'r defnydd technoleg heb i'r plentyn wybod hynny'n syth, er enghraifft y perswâd i roi lluniau rhywiol ar y rhyngrwyd/ffonau symudol heb daliad neu fudd ar unwaith. Ym mhob achos mae gan y rhai sy'n cam-fanteisio ar y plentyn/person ifanc bŵer drostynt oherwydd eu hoedran, rhyw, deallusrwydd, cryfder corfforol a / neu adnoddau economaidd neu adnoddau arall."

*Ffynhonnell: Diffiniad Gweithgor Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl y Camfanteisir yn Rhywiol Arnynt, 2008*

Diffiniad a symleiddiwyd gan swyddogion yng ngwers Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yw:

> Camfanteisio plentyn yn rhywiol yw pan y meithrinir perthynas amhriodol ac y rheolir person ifanc o dan 18 at ddiben rhywiol.

Mae camfanteisio rhywiol yn gamdriniol ac anghyfreithlon.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
HEDDLU POLICE

| | Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru. | |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau** | Sgiliau | Ystod |
| 1a. Senarios Sefyllfaoedd | • Ystyried safbwyntiau pobol eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol.<br>• Ffyrfio a chynnal cyfeillgarwch, a dechrau trafod ymddygiad mewn cydberthnasau personol.<br>• Bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau diangen gan gyfoedion. | • Datblygu parch atynt hwy eu hunan ac at bobl eraill.<br>• Y Gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol.<br>• Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth.<br>• Dangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel. |
| 1b. Datblygu Senarios | • Weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.<br>• Ystyried safbwyntiau pobol eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol. | • Dangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel.<br>• Datblygu parch atynt hwy eu hunan ac at bobl eraill. |
| 2. Ymgyrch Codi Ymwybyddiaeth | • Weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.<br>• Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddylliau priodol. | • Y manteision o gael mynediad I wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyngor. |
| 3. Cardiau Didoli | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith.<br>• Ystyried safbwyntiau pobol eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol. | • Datblygu parch atynt hwy eu hunan ac at bobl eraill.<br>• Y Gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol.<br>• Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 4. Dirgelwch Dywedodd Ei Fod yn Fy Ngharu | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith.<br>• Adnabod ac asesu tuedd a dibynadwyedd, e.e. gwerthuso negeseuon gan y cyfryngau.<br>• Gwrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol.<br>• Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddylliau priodol.<br>• Ystyried safbwyntiau pobol eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol.<br>• Weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.<br>• Bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau diangen gan gyfoedion.<br>• Ymaddasu i sefyllfaoedd sy'n newid. | • Y Gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol.<br>• Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth.<br>• Y manteision o gael mynediad I wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyngor. |
| 5. Yn y Gadair Boeth | • Adnabod ac asesu tuedd a dibynadwyedd, e.e. gwerthuso negeseuon gan y cyfryngau.<br>• Gwrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol. | • Datblygu parch atynt hwy eu hunan ac at bobl eraill.<br>• Y Gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol.<br>• Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth. |
| 6. Stori Whitney | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith.<br>• Gwrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac | • Datblygu parch atynt hwy eu hunan ac at bobl eraill.<br>• Y Gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol. |

| | | |
|---|---|---|
| | ymateb yn briodol.<br>• Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddylliau priodol.<br>• Ystyried safbwyntiau pobol eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol. | • Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth. |

**1a. Senarios sefyllfaoedd**

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bach a dosbarthwch un cerdyn senario (Adnodd 1a) i bob grŵp. Mae pob cerdyn yn disgrifio gwahanol sefyllfa sy'n ymwneud ag camfanteisio rhywiol ar blant ac mae'n codi'r cwestiynau canlynol:

a) Pa arwyddion ydych chi'n meddwl dylai fod wedi bod yn rhybudd i'r person ifanc?
b) Beth all y person ifanc ei wneud i aros yn ddiogel?
c) A fyddech chi'n disgrifio'r digwyddiad hwn fel camfanteisio rhywiol? Cefnogwch eich ateb â rhesymau

Gofynnwch i'r disgyblion drafod y senarios yn eu grwpiau ac ateb y cwestiynau. Enwebwch lefarydd ym mhob grŵp i roi adborth o'u hatebion i'r dosbarth cyfan. Gwnewch yn siŵr bod y disgyblion yn deall y diffiniad o gamfanteisio rhywiol (Adnodd 1b) ac archwiliwch rai sefyllfaoedd lle bo merched a bechgyn mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol.

Tynnwch sylw'r disgyblion at y cymorth sydd ar gael os teimlant eu bod mewn perygl o ddioddef camfanteisio (staff ysgol, asiantaethau lleol, Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgol, Gwasanaethau Ieuenctid a llinellau cymorth megis ChildLine 0800 11 11). Gall y cyfeirio sydd i'w gael ar wefan www.schoolbeat.org fod o ddefnydd.

**1b. Datblygu Senarios**

Gan ddefnyddio'r cardiau senarios (Adnodd 1a) rhannwch y dosbarth yn grwpiau a rhowch gerdyn i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion greu stori sy'n 'diweddu' y senario gyda diweddglo cadarnhaol. Dylai hwn gynnwys golygfa lle mae'r person ifanc yn cyrchu cymorth neu gefnogaeth o fan, gan berson neu sefydliad addas.
Yn dibynnu ar allu'r disgyblion, gellir gwneud recordiad sain, darlunio neu

ysgrifennu'r storïau.
Gofynnwch i'r grwpiau roi adborth o'u storïau i'r dosbarth cyfan. Atgyfnerthwch strategaethau diogelwch gyda'r disgyblion.

## 2. Ymgyrch Codi Ymwybyddiaeth

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu eu bod yn gweithio i sefydliad sy'n ceisio darparu cymorth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc. Dosbarthwch gopïau o'r ddalen ysgogi (Adnodd 2a) i bob grŵp . Y dasg yw creu deunydd ar gyfer ymgyrch sy'n codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio rhywiol ar blant ymhlith pobl ifanc 14 - 18 oed. Gellir defnyddio'r gwefannau canlynol i gynorthwyo'r disgyblion i gwblhau'r dasg:
www.schoolbeat.org
www.NSPCC.org.uk
www.childline.org.uk
www.barnardos.org.uk
www.thinkuknow.co.uk
www.**ceop**.police.uk
Gallai'r deunydd ymgyrch fod ar sawl ffurf wahanol megis poster, taflen, erthygl papur newydd, blog, stori lluniau, tudalen Facebook, podlediad ac ati. Bydd y ddolen isod yn mynd â chi i dudalen camfanteisio rhywiol ar blant yr NSPCC
www.nspcc.org.uk/inform/resourcesforprofessionals/sexualabuse/sexual_exploitation_wda83207.html Mae'n rhoi crynodeb defnyddiol ar gyfer athrawon o'r amrywiaeth o agweddau sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.
Ar ôl ei gwblhau dylai'r disgyblion gyflwyno'r deunydd i'r dosbarth. Gellid eu defnyddio hefyd i gyflwyno gwasanaeth i'w grŵp blwyddyn neu eu defnyddio mewn arddangosfeydd dosbarth.

## 3. Cardiau Didoli

Nod y gweithgaredd hwn yw archwilio rhai o'r rhesymau pam y gallai plentyn ddioddef camfanteisio rhywiol. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Rhowch set o 19 cerdyn didoli i bob grŵp (Adnodd 3a). Dywedwch wrth y disgyblion fod y cardiau yn ddyfyniadau gan bobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol. Gofynnwch i'r disgyblion drafod y dyfyniadau a phenderfynu a ydynt yn dangos bod y dioddefwr yn agored i niwed, wedi ei fygwth neu eu hudo gan gymhellion. Gofynnwch i'r disgyblion ddidoli'r cardiau o dan y penawdau a roddir yn yr adnodd ( *Rwy'n meddwl ei fod ef/bod hi'n agored i niwed; Rwy'n meddwl ei fod ef/bod hi wedi syrthio am y cymhellion; Rwy'n meddwl ei fod ef/bod hi wedi ei fygwth/bygwth)*
Gofynnwch i'r disgyblion roi adborth o'u penderfyniadau a thrafodwch y canlyniadau gyda'r dosbarth cyfan.

**4. Dirgelwch Dywedodd ei fod yn fy ngharu**

**Gweithgaredd:**

Eglurwch i'r disgyblion mai dirgelwch yw'r dasg. Her y grŵp yw datrys y pos 'Dywedodd ei fod yn fy ngharu'. Mae'r datganiadau dirgelwch (Adnodd 4a Benywiaidd a'r datganiadau Adnodd 4b Gwrywaidd) yn cynnwys gwybodaeth i gynorthwyo grwpiau i ddod o hyd i ateb.

Trefnwch y dosbarth yn grwpiau bach sy'n gymysg o ran rhyw (3 neu 4). Gofynnwch i'r grwpiau dreulio cyfnod byr o amser yn ystyried y ffordd orau i fynd i'r afael a'r dasg.

**Rhan 1:**

Dosbarthwch y datganiadau dirgelwch Benywaidd (dioddefwr) (adnodd 4a) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion gymysgu'r datganiadau a chymryd tro yn eu darllen wrth iddynt eu didoli yn ddilyniant rhesymol.

Rhowch 10 munud i'r grwpiau i ystyried y wybodaeth, i gynnig atebion posibl a thrafod beth y maent hwy'n feddwl sy'n mynd i ddigwydd nesaf. Gwrandewch ar y trafodaethau grŵp a helpwch grwpiau os bydd angen drwy ofyn cwestiynau ysgogi. Eglurwch y gofynnir i rai grwpiau gynnig eu 'hateb' i'r dosbarth cyfan mewn ychydig funudau. Eglurwch bwysigrwydd cyfiawnhau eich rhesymau. Caniatewch amser i'r grwpiau gynllunio beth y maent yn mynd i ddweud. Gofynnwch i un neu ddau grŵp am eu hatebion a'r rhesymau am eu penderfyniad. Gofynnwch i grwpiau eraill ychwanegu syniadau/atebion amgen.

**Rhan 2:**

Nawr, dosbarthwch y datganiadau dirgelwch Gwrywaidd (achoswr) (Adnodd 4b) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion gymysgu'r datganiadau a chymryd tro yn eu darllen wrth iddynt eu didoli yn ddilyniant rhesymol.

Rhowch 10 munud i'r grwpiau i ystyried y wybodaeth, i gynnig atebion posibl a thrafod beth y maent hwy'n feddwl sy'n mynd i ddigwydd nesaf. Gwrandewch ar y trafodaethau grŵp a helpwch grwpiau os bydd angen drwy ofyn cwestiynau ysgogi. Gofynnwch i un neu ddau grŵp am eu hatebion a'r rhesymau am eu penderfyniad. Gofynnwch i grwpiau eraill ychwanegu syniadau/atebion amgen.

**Neu**

Gallai hanner y grwpiau ddefnyddio'r datganiadau benywaidd (dioddefwr) a'r hanner arall y datganiadau gwrywaidd (achoswr).

**Neu**

Gallai'r bechgyn ddefnyddio'r datganiadau benywaidd (dioddefwr) a gallai'r merched ddefnyddio'r datganiadau gwrywaidd (yr achoswr).

**Datganiadau Dirgelwch Menywod (dioddefwr) - a roddir mewn trefn ar gyfer athrawon**

1. Mae dechrau mewn ysgol newydd ym mlwyddyn 10 wedi bod yn anodd iawn i fi.
2. Nid oes unrhyw un i siarad â nhw ac nid oes gen i ffrindiau y gallaf ymddiried ynddyn nhw.
3. Mae bachgen sy'n byw'n agos ym Mlwyddyn 13 yn yr un ysgol â mi.
4. Mae wedi bod yn gyfeillgar, wedi cerdded gyda fi adref a hyd yn oed wedi gofyn i gyfnewid rhifau ffôn symudol.
5. Tecstiodd fi i ofyn i mi ei ychwanegu fel ffrind ar wefan rhwydweithio cymdeithasol.
6. Nawr byddwn yn siarad ar-lein bob nos a bydd hyd yn oed yn fy helpu gyda fy ngwaith cartref.
7. Mae bob amser yn dweud pethau neis amdana'i a fy mod i'n edrych yn grêt.
8. Nid oes neb wedi dangos diddordeb fel hyn yna'i o'r blaen. Mae'n gwneud i fi deimlo'n arbennig.
9. Efallai ei fod yn fy hoffi? Gobeithio'n wir, mae'n neis iawn.
10. Nos Wener fe es i'r sinema gydag e - dim ond ni'n dau eto. Talodd amdana'i hyd yn oed.
11. Ar y ffordd adref prynodd fodca ac annog fi i'w rannu.
12. Rwy'n credu ei fod yn fy mharchu, mae newydd roi cusan nos da i fi!
13. Pan gyrhaeddais adref perswadiodd fi i fynd ar-lein a buom yn siarad am amser hir.
14. Diolchodd i fi am noson wych ac anfonodd luniau ohono'n gorwedd ar y gwely ataf!
15. Gofynnodd i fi anfon lluniau tebyg ohonof i - ac fe wnes hynny.
16. Mae wedi fy ngwahodd i'w dŷ y penwythnos hwn.
17. Ein cyfrinach ni yw hyn. Nid wyf wedi dweud wrth unrhyw un.
18. Rwy'n gobeithio na fydd mam yn dod i wybod.
19. Dim ond fe a fi fydd yno, gyda llawer o alcohol, yn cael noson ramantus gyda'n gilydd.

**Datganiadau Dirgelwch Dynion (achoswr) - a roddir mewn trefn ar gyfer athrawon**

1. Rwy'n chwilio llygad am 'gariadon newydd'.
2. Mae merch newydd ym Mlwyddyn 10 ac mae'n byw'n agos.
3. Fe arhosa i ar ôl ysgol i'w cherdded adre er mwyn dod i'w hadnabod yn well.
4. Mae'n swil ac yn dipyn yn wahanol - gall fod yn ddiddorol.
5. Ni alla'i gredu iddi roi ei rhif ffôn i fi ar unwaith.
6. Rydw i wedi ei thecstio ac mae wedi fy ychwanegu fel ffrind ar-lein – bydd hyn yn haws nag a feddyliais.
7. Fe gynigia'i helpu â'i gwaith cartref fel y bydd hi'n dod i ddibynnu arna'i.
8. Dylai ychydig o eiriau'n ei chanmol wneud iddi deimlo'n arbennig.
9. Er mwyn ei chadw draw oddi wrth y disgyblion eraill yr ysgol fe ddweda'i wrthi mai hi yw'r unig un i mi.
10. Bydd yn werth talu amdani i fynd i'r sinema.
11. Fe geisia'i ei meddwi ar y ffordd adre.
12. Nawr ei bod hi'n ymddiried yna'i, mae'n bryd mynd â phethau'r cam nesaf.
13. Beth am ddechrau drwy gyfnewid lluniau yna fe wnaf ei pherswadio i fynd ychydig ymhellach.
14. Mae mam a dad i ffwrdd dros y penwythnos felly dyma fy nghyfle – fe wnaf ei gwahodd draw.
15. Rydw i wedi dweud wrthi am beidio dweud wrth unrhyw un.
16. Rwy'n gobeithio na fydd ei Mam yn dod i wybod.
17. O'r diwedd dim ond hi a fi a digon o ddiod!
18. Dewch i gael gweld a yw hi'n mynd i ddangos i fi gymaint mae'n fy ngharu.

**Dosbarth cyfan:**

Defnyddiwch y storïau i archwilio cymhellion:

- y dioddefwr; yr angen am gyswllt emosiynol, cael rhywun i siarad ag ef/hi ac i ddibynnu arnynt ac ati.
- yr achoswr; yn fwriadol yn creu cysylltiad emosiynol ac ymddiriedaeth er mwyn cynyddu'r tebygrwydd y bydd y dioddefwr yn cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol neu ecsploetio.

Gofynnwch i'r dosbarth ystyried y rhybuddion sydd i'w gweld. Sut yn eu barn hwy mae'r dirgelwch yn gorffen?

Darllenwch y diweddglo (Adnodd 4c) neu dangoswch y PowerPoint (Adnodd 4d) ar y Bwrdd Gwyn Rhygwweithiol. Ystyriwch a thrafodwch y canlyniadau byr a hir dymor personol, cymdeithasol a chyfreithiol o feithrin perthynas amhriodol a chamfanteisio rhywiol.

Atgoffwch y disgyblion ynglŷn â'r ffynonellau cymorth a chefnogaeth emosiynol cyfrinachol.

**Gwybodaeth ar gyfer athrawon**
Nododd ymchwil gan yr uned Child Exploitation and Online Protection (CEOP) (2011) bod 87 y cant o'r troseddwyr meithrin perthynas amhriodol yn ddynion.

Mae rhannu delweddau a'r bygythiad i'w defnyddio yn gyffredin mewn sefyllfaoedd meithrin perthynas amhriodol wyneb yn wyneb ac ar-lein.

**5. Yn y gadair boeth!**
Nod y gweithgaredd hwn yw rhoi'r cyfle i ddisgyblion archwilio mewn rhywfaint o ddyfnder sefyllfa a theimladau cymeriadau allweddol mewn sefyllfa o gamfanteisio rhywiol.
Paratowch y disgyblion ar gyfer sioe ar batrwm rhaglen Jeremy Kyle o'r enw 'Sioe Jerome Acyle' (Adnodd 5a). Teitl y bennod fydd:
"Maent yn meddwl ei fod yn meithrin perthynas amhriodol - ond rydym mewn cariad! Roedd am ei gadw'n gyfrinach dim ond er mwyn bod yn fwy rhamantus."
Dewiswch ddisgyblion ar gyfer rolau: y dioddefwr – Emma
mam y dioddefwr – Julie
ffrind y dioddefwr – Zara
yr achoswr (camfanteisiwr rhywiol) – Ryan

D.S. Mae'n bwysig cymryd gofal wrth ddewis yr actorion. Mae Nodiadau'r

Ymchwilydd (Adnodd 5b) yn rhoi peth gwybodaeth gefndir ar gyfer yr actorion. Rhowch beth amser iddynt ddarllen y nodiadau a pharatoi eu rolau. Paratowch weddill y dosbarth i fod yn gynulleidfa tra eich bod chi, yr athro/athrawes dosbarth, yn chwarae rôl Jerome Acyle!

Gosodwch y cefndir ar gyfer y dosbarth (heb roi gormod o wybodaeth) a dechreuwch drwy gyflwyno Emma a gofyn rhai cwestiynau iddi. Agorwch y llawr i gael cwestiynau gan y gynulleidfa. Mae Emma yn y gadair boeth yn gorfod ateb gan chwarae rhan ei chymeriad. Cyflwynwch y cymeriadau eraill yn eu tro sy'n ateb cwestiynau a ofynnir gan y disgyblion eraill.

**(Adnodd 5c) Cynigir y cwestiynau canlynol fel awgrymiadau neu ysgogiadau ar gyfer gweithgaredd y gadair boeth. Gellir eu defnyddio fel ysgogiadau ar gyfer y 'cyflwynydd' neu'r disgyblion.**

**Emma**

1. Mae'n rhaid ei bod yn amlwg fod y bechgyn yn ddrwg, felly beth wnaeth dy ddenu at Ryan yn y lle cyntaf?
2. O edrych yn ôl, sut wyt ti'n credu bod Ryan wedi gallu dy reoli di?
3. A oeddet ti'n ei garu ac a oeddet ti'n credu ei fod e'n dy garu di?
4. Fe ddywedaist nad oeddet yn deall pam fod Ryan am i ti gadw popeth yn gyfrinach. Pam wyt ti'n credu y dwedodd e hynny? A wyt ti'n deall nawr?
5. Ar ôl popeth ddigwyddodd a yw dy deimladau tuag at Ryan wedi newid?

**Julie - mam Emma**

1. Pam ydych chi'n credu y daeth eich merch yn ddioddefwr camfanteisio rhywiol?
2. Ydych chi'n credu eich bod yn fam wael? Efallai bod gennych fwy o ddiddordeb yn eich cariad chi eich hun!
3. A ddylech fod wedi gwneud ymdrech i ddod i wybod am ei chyfrinachau?
4. Pe gallech fynd yn ôl mewn amser, beth ydych chi'n feddwl y byddech yn ei wneud yn wahanol?

**Zara - ffrind Emma**

1. Sut wyt ti'n teimlo am Emma?
2. A wyt ti wedi gwylltio gyda hi? Pam?
3. A oeddet ti'n amau bod rhywbeth mawr o'i le?
4. A wyt ti'n credu y dylet fod wedi gwneud rhywbeth i helpu Emma?
5. A wyt ti'n credu bod Ryan yn caru Emma?
6. A yw'n iawn i wneud 'ffafrau' i'ch cariad?

**Ryan – cariad Emma**

1. Pam wnes ti benderfynu meithrin perthynas amhriodol gydag Emma?
2. A wyt ti'n ei charu? Mae hi'n credu dy fod!
3. A alli di egluro beth pam y gwnes ti hyn?
4. A oes gen ti gydwybod am yr hyn a wnes ti i Emma a merched tebyg iddi?
5. A wyt ti'n credu bod yr hyn a wnes ti yn anghywir?
6. A wyt ti'n credu dy fod wedi torri'r gyfraith?

I orffen, gofynnwch i'r holl ddisgyblion ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth ydych chi' n feddwl fydd yn digwydd nesaf i bob cymeriad?
- Beth fyddech chi'n cynghori Emma, ei mam a'i ffrind i'w wneud?

Sicrhewch fod y disgyblion yn gwybod eu bod wedi bod yn trafod camfanteisio rhywiol. Cyfeiriwch at y diffiniad yn Adnodd 1b.
Efallai y bydd hi'n bosibl ffilmio'r 'sioe' a defnyddio'r ffilm mewn gwers ddiweddarach i drafod y materion a godwyd ymhellach.

**6. Stori Whitney (Pennod EastEnders Comic Relief, 2011)**
Dilynwch y ddolen http://youtu.be/SC7O6UJkk4c i ddod o hyd i ran arbennig o EastEnders a ddarlledwyd gyntaf ar ddiwrnod Comic Relief 2011. Mae'r bennod yn canolbwyntio ar Whitney, sydd wedi syrthio mewn cariad â bachgen hŷn o'r enw Rob. Mae Rob yn cynllunio i gamfanteisio'n rhywiol ar Whitney a gwneud arian.

Gofynnwch i'r disgyblion drafod beth maent yn ei ddeall gyda'r term camfanteisio rhywiol a rhoi adborth o'u syniadau i'r dosbarth cyfan. Efallai y byddwch yn cyfeirio at y diffiniad (Adnodd 1b). Dangoswch y bennod o EastEnders i'r disgyblion (9½ munud). Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhoi un o'r cardiau cwestiynau (Adnodd 6a) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion drafod eu cwestiynau ac yna roi adborth o'u hatebion yn eu tro i'r dosbarth cyfan.

I orffen, atgoffwch y dosbarth bod camfantesio'n rhywiol yn anghyfreithlon ac yn gamdriniol. Atgoffwch hwy o ffynonellau cymorth sydd ar gael os teimlant eu bod dan fygythiad ac yn anniogel o fewn yr ysgol a gan asiantaethau allanol. Gellir dod o hyd i linellau cymorth a gwefannau ar www.schoolbeat.org.